CIWB

**Tasg 2**

# Sŵ doniol

1. Gwnewch gynllun o dir yr ysgol.
   Labelwch:

   y caeau
   yr iard
   y fynedfa
   y gampfa
   y neuadd
   y llyfrgell
   yr ystafell fwyta
   yr ystafell Gymraeg

2. Rydych chi'n mynd i gynllunio sŵ doniol o gwmpas yr ysgol.

   Meddyliwch am:
   - pa anifeiliaid (beth am ddefnyddio'r anifeiliaid o Dasg 1?)
   - pa liwiau
   - ble yn union fydd yr anifeiliaid yma – pam?
   - beth arall fydd yn y sŵ, e.e. stondin gwybodaeth am anifeiliaid gwyllt, stondin fwyd, stondin gwerthu pethau
   - rhywbeth arall?

   Cynlluniwch y sŵ.

3. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r sŵ ac o'r anifeiliaid, e.e.

> Mae llewod mawr, pinc a gwyrdd yn yr ystafell Gymraeg.
> Mae geiriau Cymraeg ar y llewod achos maen nhw'n helpu'r disgyblion i ddysgu Cymraeg. Maen nhw'n wych.

4. Disgrifiwch y sw i grŵp arall.

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| cynllun | plan | yn union | exactly |
| caeau | fields | stondin | stand |
| mynedfa | entrance | gwybodaeth | information |
| campfa | gym | gwyllt | wild |
| cynllunio | to design | gwerthu | to sell |

5. Mae’r athrawon Cymraeg yn trefnu stondin fwyd.

**Cŵn poeth a byrgers blasus**



Ci poeth: 85c

Byrger: 95c

- 3 am bris 2
- Disgownt o 5% os ydych chi’n gofyn yn Gymraeg
- Disgownt o 15% os ydych chi’n prynu mwy na 5

a. Mae Irfan, Lois a Matt yn prynu dau gi poeth a byrger. Faint maen nhw’n talu?

b. Mae Alys, Paul a Yoko’n prynu 2 gi poeth a 3 byrger ac maen nhw’n gofyn yn Gymraeg. Faint maen nhw’n talu?

c. Mae’r athrawon addysg gorfforol yn prynu 10 ci poeth ac maen nhw’n gofyn yn Gymraeg. Faint maen nhw’n talu?